**Monitro Gwanwyn 2017 - Haf 2017**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad Arolygiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA3** | **CA4** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| Glan y Môr | √ | Da | Da | Da | 09/01/17 | 14/03/17 | Da |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Cynradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiadau Ysgol** | | | **Dyddiad Arolygiad** | **Adroddiad Estyn allan** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| **Gwanwyn 2017** | | | | | | | |
| Talysarn | √ | Da | Da | Da | 30/01/17 | 04/04/17 | Rhagorol |
| Bro Hedd Wyn | √ | Da | Da | Da | 06/02/17 | 11/04/17 | Da |
| Bontnewydd | √ | Da | Da | Da | 13/02/17 | 20/04/17 | Rhagorol |
| Eifion Wyn | | | | | 20/03/17 | 26/05/17 | Da |
| Llanllyfni | √ | Da | Da | Da | 20/03/17 | 26/05/17 | Da |
| | | | | | | | |
| **Haf 2017** | | | | | | | |
| Bro Tegid | √ | Da | Da | Da | 08/05/17 | 12/07/17 | |
| Felinwnda | | | | | 12/06/17 | 15/08/17 | |
| Abersoch | | | | | 19/06/17 | 22/08/17 | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Arbennig** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor y **Gwanwyn 2017** cafodd 5 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn.

Yn ystod y cyfnod tymor yr **Haf 2017** cafodd 1 ysgol gynradd, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 2 ysgol arall yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn:**

**Tymor y Gwanwyn 2017**

**Ysgol Glan y Mor (Ionawr 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ac arweiniad gwerthfawr er mwyn hybu iechyd a lles y disgyblion, gan gynnwys egwyddorion bwyta ac yfed yn iach. Mae gan yr ysgol strategaethau llwyddiannus i sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad a gwella presenoldeb. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion, er enghraifft trwy brosiect celfyddydol ar faterion iechyd meddwl. Adroddiad ar Ysgol Glan y Môr Ionawr 2017.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy wasanaethau diddorol ac yn y cyfnodau cofrestru. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad clir i'r disgyblion.

**Ysgol Talysarn (Ionawr 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd arbennig y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgyblion bregus yn nodwedd ardderchog ac yn hynod lwyddiannus. Mae'r rhaglen gefnogi ar eu cyfer yn arbennig o effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at godi hunanhyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion hyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardderchog. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod y disgyblion yn gynnar a darperir rhaglenni cefnogi hynod lwyddiannus ar eu cyfer. Mae staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni pan fyddant yn eu hadolygu. Dengys system olrhain cynnydd trwyadl yr ysgol fod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl dros amser.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd.

**Ysgol Bro Hedd Wyn (Chwefror 2017)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff manteision byw yn iach a hybu iechyd corfforol disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog o fewn yr ysgol a'r gymuned sy'n datblygu medrau cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Un enghraifft o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion trwy ymroi i gefnogi'r ddwy eisteddfod leol a'r sioe amaethyddol yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweithredu'n llawn fel aelodau o'r gymuned leol ac yn gwerthfawrogi eu rôl o fewn y gymuned honno.

**Ysgol Bontnewydd** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn hynod effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae ymroddiad yr ysgol i hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol fel Campau'r Ddraig a Dal i Fynd yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y maent yn ymdrin â'i gilydd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Ysgol Llanllyfni** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae enghreifftiau da yn cynnwys cyfle priodol i'r disgyblion fyfyrio a chyflwyno eu gweddïau syml eu hunain yn y gwasanaethau boreol wrth gofio am blant sy'n llai ffodus na nhw. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan flaenllaw yn y gymdeithas wrth gydweithio â'r trigolion i gadw'r pentref yn daclus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd byw yn iach. Mae cyfleoedd niferus ac amrywiol i ddisgyblion gyfrannu at nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft cymryd eu rhan ar y tîm Tyfu Tatws. Trwy'r gweithgarwch hwn, maent yn cael cyfle pwrpasol i weithio yn yr ardd a phlannu ffrwythau a llysiau. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol ac yn datblygu medrau mentergarwch yn ymarferol.

**Ysgol Eifion Wyn** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth gref i les a diogelwch disgyblion. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion fynegi barn ar sut i wella amgylchedd yr ysgol a'i gwneud yn fwy diogel. Caiff datblygiad ysbrydol moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy weithgareddau cyd-addoli rheolaidd ynghyd â chyfleoedd iddynt fyfyrio'n dawel ar faterion cyfoes sy'n berthnasol iddynt.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol effeithiol iawn i ddiwallu anghenion penodol y rhan fwyaf o'i disgyblion. Mae ganddi gysylltiadau cryf â nifer o asiantaethau arbenigol ac mae staff yn gwneud defnydd llwyddiannus ohonynt. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n effeithiol â'r seicolegydd addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd i sicrhau bod disgyblion ag anghenion penodol yn cael mynediad llawn i gefnogaeth briodol pan fo'i angen. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.